# HUGHES, DAVID ('Cristiolus Môn '; 1810 - 1881), ysgolfeistr a cherddor

**Enw:** David Hughes
**Ffugenw:** Cristiolus Môn
**Dyddiad geni:** 1810
**Dyddiad marw:** 1881
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ysgolfeistr a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn Llangristiolus, Môn. Bu'n cadw ysgol yn Nhrefdraeth a lleoedd eraill ym Môn, ac yn Rhewl gerllaw Rhuthun. Gadawodd y swydd o ysgolfeistr ac aeth yn ddarllenydd i swyddfa Thomas Gee, Dinbych. Wedi hynny bu'n llyfr-rwymydd, crefft a ddysgodd ei hun. Rhoddodd y gwaith o rwymo llyfrau i fyny, a phenodwyd ef yn gyfrifydd i John Parry, gwneuthurwr menyg, Dinbych a Chroesoswallt, a daliodd y swydd hon tra bu byw. Yr oedd yn gerddor da. Bu ganddo ran amlwg yn sefydlu Cymdeithas Gerddorol Môn, ac ef oedd arweinydd y canu yng nghyfarfod cyntaf y gymdeithas yn 1835. Enillodd yn eisteddfod Llifon ar gyfansoddi anthem. Yn 1843 dug allan *Y Perorydd Cysegredig*, ac, yn 1851, *Yr Athraw Cerddorol*, llyfr bychan ar elfennau cerddoriaeth a hyfforddiadau i'r llais. Bu farw 13 Hydref 1881.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


*Cronicl y Cerddor*, 1881

M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

R. Hughes, *Enwogion Môn, 1850–1912* (Dolgellau 1913)


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 152711266

Wikidata: Q20732828


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu